

HOPCYN, WILIAM (1700 - 1741), bardd

Enw: Wiliam Hopcyn
Dyddiad geni: 1700
Dyddiad marw: 1741
Rhiant: Diana Thomas (née Harry)
Rhiant: Hopkin Thomas
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Griffith John Williams

O Langynwyd yn Nhir Iarll, na wyddom odid ddim amdano. Mynnai ' **lolo Morganwg** ' yn ei hen ddyddiau mai ef oedd y gŵr o'r enw hwnnw a gladdwyd yno yn 1741, a derbyniwyd y farn hon gan wŷr y ganrif ddiwethaf. Dywedid hefyd ei fod yn dowr ac yn blastrwr. Er hynny, haerai ' **lolo** ' yn ei ddyddiau bore eu bod ill dau yn gyd-ddisgyblion yng ' Nghadair Morgannwg ' yn 1760. Ni ellir bod yn sicr ond o un peth, sef i ŵr o'r enw ' Will Hopkin ' ganu sen i'r prydyddion yn eisteddfod y Cymer yn 1735. Yn ôl ' **lolo** ' yr oedd yn enwog fel bardd serch, ac ef a ddywedodd mai Wil Hopcyn ydoedd awdur y gân ' Bugeilio'r Gwenith Gwyn.' Y mae'n bosibl fod yma gnewyllyn o hen ganu, ond gellir tybied mai ' **lolo** ' ei hun piau hi fel cân orffenedig. Tua 1845, dechreuodd ' **Taliesin ab Iolo** ' adrodd y stori am helyntion carwriaethol Wil Hopcyn ac **Ann Thomas, y ferch o Gefn Ydfa**, a chysylltu'r gân 'Bugeilio'r Gwenith Gwyn' â'r traddodiad hwnnw. Yna ymroes **Mrs. Pendrill Llewelyn**, gwaraig ficer Llangynwyd, i gasglu penillion a thribannau traddodiadol Tir Iarll, a honni mai gwaith Wil oeddynt, a bod llawer ohonynt yn ymwneud â helynt Cefn Ydfa. Mewn gwirionedd, ni wyddom ddim am Wil Hopcyn ond iddo ganu sen i'r prydyddion yn eisteddfod y Cymer yn 1735. Nid oes gennym gynifer ag un gan, nac yn wir, gynifer ag un pennill, y gellir teimlo'n sicr mai ef a'i cyfansoddodd.

Awdur

Yr Athro Emeritus Griffith John Williams, (1892 - 1963)

Ffynonellau

Thomas Morgan, *The Cupid: being the histories of the 'Maid of Cefn Ydfa' and the 'Maid of Sker', together with the histories of their lovers, Will Hopkin the Bard and Thomas Evans the Harper* (Cwmavon 1869), 1869

T. C. Evans, *History of Llangynwyd Parish, with Illustrations* (Llanelly 1887), 89-123

Y Llenor: cylchgrawn chwarterol dan nawdd cymdeithasau Cymraeg y colegau cenedlaethol, vi, rhif 4; vii, rhif 1

G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (1948), 1948, 251-9

Darllen Pellach

Louvain Rees, *Behind The Folk Tale: The Maid Of Cefn Ydfa* (cyrchwyd Gorrffennaf 2020)

Erthygl Wicipedia: Wil Hopcyn

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 3728203

Wikidata: Q13132354

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Arddull APA

Williams, G. J., (1953). HOPCYN, WILIAM (1700 - 1741), bardd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-HOPC-WIL-1700>

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiogel gan
Llywodraeth Cymru
Secured by
Welsh Government